Fila Rufeinig Abermagwr

Abermagwr Roman villa

Mae archaeolegwyr sy'n gweithio i'r Comisiwn Brenhinol yn credu iddynt ddod o hyd i fila Rufeinig dan gae yn Abermagwr ger Aberystwyth. Nid oes yr un fila Rufeinig yn hysbys yng Ngheredigion ar hyn o bryd, na'r un mor bell i'r gogledd a'r gorllewin yng Nghymru. Archaeolegwyr-o'r-awyr o Brifysgol Caergrawnt ym 1979 oedd y cyntaf i sylwi ar ôl cnydau lloc anarferol. Dangosodd awyrluniau newydd gan y Comisiwn Brenhinol yn 2006 fod yno loc mawr a chymhleth a bod fferm amddiffynedig o'r Oes Haearn gerllaw. Ysgogodd hynny gynnal arolwg geoffisegol yn 2009. Dangosodd hwnnw sylfeini'r hyn sydd, yn fwy na thebyg, yn fila Rufeinig â 'choridor adeiniog' a godwyd rhwng OC 78 ac OC 400.

Archaeologists working for the Royal Commission believe they have discovered a buried Roman villa near Aberystwyth, at Abermagwr. There are no Roman villas currently known in Ceredigion, and none this far north or west in Wales. Cropmarks of an unusual enclosure were first recognised by aerial archaeologists from Cambridge University in 1979. New aerial photography in 2006 by the Royal Commission revealed a large and complicated enclosure, with an Iron Age defended farm nearby. This prompted a geophysical survey in 2009 which revealed the buried footings of what is probably a 'winged-corridor' Roman villa, built between AD 78 and AD 400.

Chwith: Arolwg geoffisegol fila Abermagwr gan David Hopewell, Ymddiriedolaeth Archaeolegol Gwynedd, ar gyfer y Comisiwn Brenhinol. Mae'n dangos lloc mawr y fila, y ddwy ffos, anecs tua'r gwaelod ar y chwith, a chynllun llawr y fila ar y dde uchaf.

Left: Abermagwr villa geophysical survey by David Hopewell, Gwynedd Archaeological Trust, for the Royal Commission, showing the great double-ditched villa enclosure, an annex lower left, and the floor plan of the villa upper right.

Uchod: Fila Rufeinig Abermagwr. Awyrlun a dynnwyd adeg sychder 2006. Mae'n dangos ôl cnydau lloc mawr petryal y fila (a) gwaelod, de, wrth yr afon, ac mae sylfeini'r fila (b) a'r anecs (c) hefyd i'w gweld. Uchod chwith (d), gwelir ôl cnydau fferm gron ac amddiffynedig o'r Oes Haearn a godwyd cyn y fila.

Above: Abermagwr Roman villa. An aerial view taken in the drought of 2006, showing cropmarks of the large rectangular villa enclosure (a) bottom right, by the river, with the villa footings (b) and annex (c) also visible. Cropmarks of a circular Iron Age defended farm, which pre-dates the villa, can be seen upper left (d).

Uchod: Adluniad bras o fila Rufeinig Abermagwr. Caiff ei fireinio ar ôl y cloddio arbrofol. Byddem ni'n disgwyl i'r adeilad fod wedi bod yn gartref i ffermwr neu dirfeddiannwr cyfoethog ac iddo fod wedi sefyll ar ganol ystâd fawr. Dangosir mwg yn codi o ystafell dân yr hypocawst yn y cefn.

Above: A reconstruction sketch of the Abermagwr Roman villa which will be refined following trial excavations. We would expect this building to have been home to a wealthy farmer or land-owner, at the centre of a large estate. Smoke is shown rising from the hypocaust stoking room at the rear.



Uchod: Dangosodd yr arolwg geoffisegol gynllun llawr adeilad ac iddo sylfeini cerrig a dwy adain ymestynnol, sef fila Rufeinig yn fwy na thebyg. Mae'r adeilad yn debyg i'r enghreifftiau o filâu Rhufeinig â 'choridor adeiniog' yn y de ac yn Lloegr. Mae'r adeilad yn wynebu'n union tua'r de er mwyn i gymaint o heulwen â phosibl lifo i'r coridor a'r ystafelloedd blaen. Gallai ystafell fach yn y cefn fod yn ystafell dân i hypocawst, sef system gwresogi canolog lle mae'r lloriau wedi'u codi ar golofnau.

Above: Geophysical survey revealed the tell-tale floor plan of a building with stone foundations and two projecting wings, most likely to be a Roman villa. The building is similar to excavated examples of 'winged-corridor' Roman villas in south Wales and England. The building faces due south, maximising sunlight to the front corridor and rooms. A small room at the back could be a stoking room for a hypocaust – a system of central heating with floors raised up on pillars.

Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru
Cofnod Henebion Cenedlaethol Cymru

Royal Commission on the Ancient and Historical Monuments of Wales
National Monuments Record of Wales

Cysylltwch â: CBHC, Plas Crug, Aberystwyth, Ceredigion, SY23 1NJ
Contact: RCAHMW, Plas Crug, Aberystwyth, Ceredigion, SY23 1NJ

Ffôn: 01970 621200
Telephone: 01970 621200

Gwefan: www.cbhc.gov.uk
Website: www.rcahmw.gov.uk